



Astudiaeth Achos Gŵyl y Gelli

Mae digwyddiadau o bob math a disgrifiad yn cael effaith ar yr amgylchedd yr ydynt yn rhan ohono.

Drwy gyfeirio at y tri maen glo datblygu cynaliadwy, sef amgylcheddol, ariannol a chymdeithasol, gellir cynyddu effeithiau positif a lleihau neu liniaru rhai negyddol. Er bod digwyddiadau yn aml dros dro ac yn diflannu, gellir dal asesu a rheoli eu heffeithiau.

Mae gan wyliau nifer o nodweddion sy'n debyg i'r holl ddigwyddiadau eraill er bydd gan bob un ohonynt eu gwahaniaethau neilltuol.

Nod y daflen ffeithiau hon yw darparu crynodeb o'r ardaloedd ble y gallai Gwyliau gwneud gwahaniaeth ac astudiaethau achos manwl o weithrediadau unigol.



Dylai gwyliau darparu profiad cyffrous a chynhyrffiol wrth anelu at gwrdd â'r datganiadau canlynol:

Amgylcheddol – Mae gan yr Ŵyl defnydd ynni isel, cynhyrchiad gwastraff isel, lefelau uchel o ailgylchu, rheolwyd y llygredd i gyd,

Ariannol – Mae'r Ŵyl yn rheoli ei arian mewn ffordd sy'n sicrhau ei hyfywdra pa un ai ydyw yn ddigwyddiad un tro neu'n aiddigwyddiad. Cymerir gofal i gefnogi busnesau lleol ble mae'n bosibl a buddsoddi yn y gymdogaeth.

Cymdeithasol – Mae'r Ŵyl yn ymwybodol o'r effeithiau ar y boblogaeth leol yn byw o amgylch y safle ac yn eu lliniaru ble'n bosibl.

Digwyddiadau Cynaliadwy

Systemau Rheoli Amgylcheddol ar gyfer Gwyliau

Gallai system rheoli amgylcheddol cynorthwyo sefydliadau drwy ddarparu strwythur a phroses safonol drwy ble mae'r sefydliad yn cynllunio, ymgynghori, asesu a gweithredu newid. Mae yna nifer o systemau a safonau rheoli amgylcheddol sydd ar gael sut bynnag mae dau ohonynt yn arbennig o addas ar gyfer Gwyliau yng Nghymru.

● Safon Brydeinig 8901

Mae BS 8901 yn darparu gofyniadau ar gyfer cynllunio a rheoli digwyddiadau cynaliadwy o bob maint a math, yn ychwanegol at gyngor ar sut i gwrdd â, a threchu'r gofynion hyn. Mae'n amgylchynu'r amrywiaeth cyfan o ddigwyddiadau yn amrywio o gynadleddau ar raddfa fawr a digwyddiadau unigryw er enghraifft Gemau Olympaidd 2012 i wyliau cerdd a sioeau awyr. Mae'r safon yn gymwys trwy'r gadwyn cyflenwi'r sector gan amgylchynu manau cyfarfod, trefnu cwmnïoedd a chwmnïoedd contractio diwydiant ac wedi anelu at y grwpiau canlynol:

- Trefnwyr digwyddiadau
- Lleoliadau
- Sefydliadau a/neu unigolion yn y gadwyn cyflenwi.

Mae BS 8901 yn darparu canllaw a gynlluniwyd i gynorthwyo'r defnyddiwr i roi'r gofyniadau ar waith ac i'r rheini mewn rheolaeth digwyddiadau i reoli eu peryglon amgylcheddol, ariannol a chymdeithasol ac effeithiau yn ymestyn i bob agwedd o reolaeth digwyddiadau.

Gweler: <http://www.bsi-global.com/en/Shop/Publication-Detail/?pid=00000000030146791>

● Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Mae'r Ddraig Werdd yn ffordd effeithiol o gyflawni System Reoli Amgylcheddol (EMS) wedi ei hachredu a'u harchwilio'n annibynnol gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) cydnabyddedig.

Gyda 5 lefel, gallai sefydliadau cyrraedd y lefel sy'n bodloni eu gofynion, cam wrth gam.

Ar bob lefel, gallwch gyflawni EMS cydnabyddedig ac achrededig gan UKAS, ond mae pob lefel yn mynd a chi i safon uwch.

Os hoffech, gallwch ddefnyddio'r Ddraig Werdd i fynd a chi i lefel ble gallwch chi hefyd cyflawni ISO14001 a/neu EMA.

Gweler: <http://www.greendragonwales.com>

Rheolaeth Cynaliadwy ar Waith

Bydd yr ardaloedd canlynol yn gyffredin ymhlith Gwyliau ac yn esiamplau o beth ellir ei wneud, ac er na fydd pob awgrymiad yn addas i chi fel unigolyn, gobeithio bydd yna wybodaeth ddefnyddiol i bawb.

Astudiaeth Achos Gŵyl y Gelli

Am restr lawn o awgrymiadau o brofiadau Gŵyl y Gelli o wneud gwelliannau i'w cynaladwyedd cyffredinol, gweler Pecyn Offer 'Greenprint' ar www.hayfestival.com/greenprint

Cynllunio a Rhanddeiliaid

Dylai pob cynaladwyedd cychwyn gydag adolygiad o ymarferion ac effeithiau presennol. Bydd hyn yn cynnwys un ai ydyw'r effeithiau hynny yn uniongyrchol cysylltiedig â'r busnes, yr amgylchedd neu ar y boblogaeth leol.

Ochr yn ochr â'r cynllunio a'r adolygiad dylai fod ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gallai'r rhanddeiliaid fod yn bobl o'ch cadwyn cyflenwi, preswylwyr lleol, cyrff statudol, asiantaethau'r llywodraeth a.y.b. Dylai trefnwyr cwrdd â chyflenwyr allweddol cyn yr Ŵyl ac ar ôl yr Ŵyl i adolygu'r perfformiad a thrafod gwelliannau. Dylai trefnwyr hefyd trefnu cyfarfodydd cynllunio ac adolygu gyda'r cyngor dref leol, siambr fasnach, gwasanaethau argyfwng, cyngor sir, asiantaethau priffyrdd a.y.b. Cynlluniwyd y rhain i sicrhau fod pobl yn teimlo'n gynwysedig yn y broses a bod gwybodaeth yn cael ei dderbyn a'i ddsbarthu a ellir gwella perfformiad yr Ŵyl, ai yn ei rheolaeth, profiad yr ymwelwyr neu fanteision yr ardal leol.

Rheolaeth Cadwyn Cyflenwi

Y modd yr ydych yn prynu eich cynnyrch a'ch gwasanaethau ydy'r gadwyn cyflenwi, chi sydd â'r rheolaeth ynglŷn â phwy ydych yn gwneud busnes gyda. Mewn gwirionedd mae yna amcanion cystadleuol sy'n effeithio ar bwy yr ydych yn prynu ohonynt er enghraifft, ble na allai'r busnesau lleol yr ydych am gefnogi cynnig cynnyrch amgylcheddol diogel. Isod mae yn astudiaethau achos yn edrych ar wahanol adrannau yn y gadwyn cyflenwi fel y profwyd gan Ŵyl y Gelli.

Cyfathrebu

Wedi asesu argraffiad ein rhaglen penderfynodd Gŵyl y Gelli i newid i bapur wedi'u hailgylchu gydag inc llysiuol. Wedi gwneud y penderfyniad roeddynt mi wnaethant wynebu'r newyddion y



Digwyddiadau Cynaliadwy

byddai gwneud hyn yn cynyddu'r costau gan 25%. Byddai hyn wedi effeithio ar eu hyfywdra ariannol felly er mwyn cwrdd â'u hagenda amgylcheddol.

Ac aros yn sefydlog yn ariannol, penderfynon leihau'r nifer wedi printio er mwyn cadw'r costau'r un peth. Mi wnaethant wedyn edrych ar ffyrdd o dorri nôl ar ddsbarthiad rhaglenni, sicrhau nifer o raglennu o fewn y swyddfa docynnau i bobl oedd am wirio lleoliad yn unig ac mi wnaethant hefyd gweithredu cynllun ailgylchu rhaglenni gerllaw allanfeydd yr Ŵyl fel y gallant aildefnyddio'r rhaglenni mewn cyflwr da.

Arlwyaeth

Mae gan Ŵyl y Gelli nifer fawr o fannau arlwygo ar y safle, bwyd parod ac eistedd i mewn, ac maent yn edrych i weithredu math safonol o lestri/offer i'r lleoliadau hynny na allai ail ddefnyddio llestri. Mae yna dau reswm allweddol am hwn; yn gyntaf i sicrhau fod y math o lestri/offer tafladwy o safon amgylcheddol uchel ac yn ail er mwyn symleiddio'r ffrwd gwastraff a'u gwneud yn haws i'r cyhoedd a thim y safle i drefnu'r gwastraff yn effeithiol ac effeithlon.

Cludiant

Mae Gŵyl y Gelli yn ymwybodol iawn eu bod drwy drefnu Gŵyl fawr yn denu niferoedd mawr o bobl a thrwy gael ei leoli ble ydynt, heb orsaf trenau a lefelau isel o gludiant cyhoeddus amgen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teithio mewn car. Os allent leihau'r nifer o bobl yn dod mewn car yna mi allent gael effaith mawr ar allyriadau carbon.

Maent wedi rhedeg bws gwennol o amgylch y dref am nifer o flynyddoedd ac mae hyn wedi profi'n boblogaidd (10,000+ o bobl yn 2008) sut bynnag fe benderfynom brofi gwasanaeth bws cyhoeddus a oedd yn cynnwys bysiau rheolaidd o orsaf Henffordd i safle'r Ŵyl, gwylan y dref a gwasanaeth bws mini o amgylch y pentrefi lleol agosaf o'u hamgylch. Cafwyd y bysiau amserlen i gyfarfod a'r trenau o Lundain ynghyd a nifer o gysylltiadau eraill ac mi wnaethant brofi i fod yn boblogaidd iawn gyda dros 800 o bobl yn eu defnyddio yn y flwyddyn gyntaf.



Astudiaeth Achos Gŵyl y Gelli

Roedd y gwasanaeth bws mini wedi cael prin lwyddiant gyda 150 o ddefnyddwyr sut bynnag roedd yn ddefnyddiol iawn i'r rheini heb geir. Mi fyddent yn rhedeg y gwasanaeth eto blwyddyn nesaf ac yn gwneud y gwelliannau canlynol.

- Bydd ail fws yn cael ei drefnu o Henffordd sy'n meddwl byddai'r amseroedd aros yn cael ei dorri a hefyd yn sicrhau y gallant amserlennu'r bws i gyfarfod a gwasanaethau o Gaerdydd, Birmingham a Manceinion ynghyd a Llundain.
- Mi fyddent yn ehangu'r gwasanaeth tocynnau trwodd fel y bydd pobl yn cael cynnig tocyn bws cam nesaf yn awtomatig pan ydynt yn archebu tocyn trên.
- Bydd gwasanaeth bws mini'r pentref yn cael ei ehangu i redeg trwy'r amser drwy gydol y dydd.
- Bydd marchnata'r gwasanaethau i gyd yn cael eu cyfuno, gwella a'u helaethu.

Rheoli Gwastraff



Mae Gŵyl y Gelli yn gweithio gyda chwmni ailgylchu Aberhonddu, Powells, sy'n ein cyflenwi ni gyda sgipiau ar gyfer eu gwastraff i gyd. Ynghyd a'r manteision amgylcheddol, mae'n eu manteisio nhw'n ariannol os allent ailgylchu cymaint â phosibl oherwydd maent yn derbyn tua hanner y pris am sgip llawn papur i'w hailgylchu mewn cyferbyniad â sgip o wastraff cyffredinol yn mynd i dirlenwi.

Mae ganddynt system o finiau wedi'i labelu o amgylch y safle i'r cyhoedd trefnu eu gwastraff a hefyd rhai i'r masnachwyr tu ôl i'w lleoliadau. Mae'n hawdd iawn i'r gwahanol finiau cael ei lygru naill ai drwy ddiffyg meddwl neu anrhefn pur. Bu'n hanfodol felly iddynt gael arweinydd ailgylchu sy'n rhagweld y casgliad ac yna'n ail drefnu'r gwastraff cyn iddo fynd i'r prif sgipiau. Heb y person hwn byddai yna nifer mwy o dunelli o wastraff yn mynd i dirlenwi naill ai yn uniongyrchol neu oherwydd iddynt gael eu gwrthod gan y cwmni ailgylchu.

Digwyddiadau Cynaliadwy

Rheolaeth Safle/Lleoliad

Mae yna nifer o ardaloedd y gellir edrych arnynt o fewn rheolaeth safle sut bynnag un o'r prif rai bydd defnydd ynni. Mae gan Wyl y Gelli opsiwn eithaf hawdd ar gyfer eu trydan hwy gan eu bod wedi cysylltu â'r prif gyflenwad ac felly wedi newid ei ddarparwr I 'Good Energy' sy'n tarddu eu hynni i gyd o ffynonellau adnewyddadwy. Mae'n dal angen iddynt ddefnyddio generaduron wrth gefn rhag ofn bod diffyg pŵer ac maent yn treialu opsiynau gwahanol ar hyn o bryd. Mae ganddynt nifer fach o bio-diesel (o fraster sglodion, nid olew palmwydd) wedi storio ar y safle yr ydynt wedi ceisio cymysgu i mewn i'r generaduron gyda phrin lwyddiant, mi gawsant mwy o lwyddiant drwy redeg ein ffyrch godi arno. Mae Gŵyl y Gelli hefyd yn ymchwilio i ddefnydd generaduron solar, cell tanwydd a phŵer gwynt fel opsiwn wrth gefn ac i rai o rannau pellaf y safle/meysydd parcio nad sydd ganddynt gysylltiadau i'r prif wifrau.



Mi wnaethant dreialu defnydd cerbyd 'flat-bed' trydanol yn llwyddiannus iawn, gan ei fod yn ddistaw roedd yn berffaith am symud nwyddau a gwastraff o amgylch y safle ar bob adeg, hyd yn oed yn ystod perfformiadau.

Ôl-Troed

Tra bod yna ffordd hawdd y gallai gwyliau torri eu defnydd ynni, cynhyrchiad gwastraff a.y.b. mae'n ddefnyddiol i gael rywfath o syniad o fan cychwyn i allu mesur unrhyw ostyngiadau. Nid yn unig i'ch targedau chi ond hefyd yn aml y mae'n ofyniad oddi wrth systemau neu safonau rheoli amgylcheddol. Mae yna amrywiaeth eang o offer cymorth ôl-droed ar gael sut bynnag maent yn tueddu mesur yr un ardaloedd er mae'r manylder yn amrywio. Mae Gŵyl y Gelli wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid gwahanol i fesur ein ôl-droed sy'n ein galluogi i elwa o'u gwybodaeth hwy ac iddynt fanteisio o gyrchu ei ddigwyddiad. Y flwyddyn hon maen nhw wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth a BRASS, a leolwyd ym Mhrifysgol Caerdydd.

Amcanion a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Yn debyg i ôl-troed nid ydyw'n hanfodol i gael amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol sut bynnag maent yn helpu

Astudiaeth Achos Gŵyl y Gelli



canolbwyntio ar sefydliad a hefyd yn galluogi prosesau asesu ac adolygu mwy trwyadl. Mae rhai enghreifftiau o amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol a gosodwyd gan Wyl y Gelli fel y ganlyn:

Amcanion

- I leihau defnydd nwyddau, ynni a chyflenwadau crai.
- I leihau llygredd, allyriadau a gwastraff.
- I addysgu a chynorthwyo ymwelwyr yr Wyl i leihau eu heffaith carbon a gwella eu cynladwyedd.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

- Cyfanswm Adnoddau defnyddiwyd y flwyddyn/digwyddiad (cilowat o drydan yr awr, tunellau o bapur, litrau o ddŵr, litrau o nwy a.y.b.).
- Cyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd (canran a ailgylchwyd i'r canran anfonwyd i dirlenwi).
- Allyriadau a gynhyrchwyd (cyfanswm tunellau o CO₂ a gynhyrchwyd a.y.b.).
- Newidiadau i ymddygiad ymwelwyr (canran o bobl yn teithio mewn car neu gludiant cyhoeddus y flwyddyn/digwyddiad a.y.b.).

Asesu Perfformiad ac adolygiad.

Un o'r manteision o ddefnyddio System Rheoli Amgylcheddol yw ei bod yn rhoi'r strwythur a'r offer i chi i allu asesu eich perfformiad, cyflawni adolygiadau ac addasu rheolaeth. Mae gan y ddwy system a drafodwyd yn gynharach system monitor ac adolygu wedi'u mewnosod yn gadarn yn y broses ac yn gweithio'n dda ar yr amod yr ydych ond yn derbyn beth yr ydych yn rhoi i mewn. Felly mae'n bwysig i fod yn glir ynglŷn â'r math a chywirdeb y data sydd gennych ac yn gallu mesur cyn cyflwyno amcanion a dangosyddion perfformiad a fydd yn troi'n anfesuradwy a gan hynny yn weddol ddiystyr.

Am awgrymiadau ar sut i wneud newidiadau a gwella cynladwyedd eich Gŵyl, gweler ein pecyn cymorth ar Toolkit at www.hayfestival.com/greenprint